# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 4

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 96 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 96 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 96 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(n)**

**I3** A. 96 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **ergl. 8(i)**

**I4** A. 96 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I5** A. 96 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I6** A. 96 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(n)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I7** A. 96 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I8** A. 96 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**I9** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(n)**, 3

**I10** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(n)**, 4

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I11** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)
**I12** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 4-22)
**I13** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21)
**I14** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))
**I15** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(n)**
**I16** A. 96 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(n)** (ynghyd ag erglau. 4-25)

## 97 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, a

(b) unrhyw ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad neu ddogfen statudol.

(3) Rhaid i ddogfen statudol a ddiwygir drwy reoliadau o dan yr adran hon gael ei chyhoeddi ar ei ffurf ddiwygiedig gan y person a chanddo'r swyddogaeth o wneud neu ddyroddi'r ddogfen.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "dogfen statudol" yw offeryn (ac eithrio offeryn statudol)—

(a) a wneir neu a ddyroddir o dan ddeddfiad, a

(b) sy'n ddarostyngedig i weithdrefn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ofynnol gan ddeddfiad cyn y caniateir iddo gael ei wneud neu ei ddyroddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** A. 97 mewn grym ar 25.1.2018, gweler **a. 100(1)**

## 98 Rheoliadau

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud—

(a) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adran 3(4), 39(2), 45, 46, 60(4), 74(1), 75, 82, 83, 85, 90 neu 99(8);

(b) y rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 15(2);

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) rheoliadau a wneir o dan adran 97 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu mewn Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** A. 98 mewn grym ar 25.1.2018, gweler **a. 100(1)**

### 99 Dehongli cyffredinol

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae "addysg" ("*education*") yn cynnwys addysg lawnamser a rhan-amser, ond nid yw'n cynnwys addysg uwch; ac mae "addysgol" ("*educational*") ac "addysgu" ("*educate*") (a thermau cysylltiedig eraill) i gael eu dehongli yn unol â hynny;

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr ystyr a roddir gan adran 2;

mae i "awdurdod cartref" ("*home authority*") yr ystyr a roddir gan adran 39;

ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("*Special Health Authority*") yw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) neu adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, ac eithrio pan fo cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at awdurdod lleol yn Lloegr;

F1 ...

**[**F2 ystyr "bwrdd gofal integredig" ("integrated care board") yw corff a sefydlir o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;**]**

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "corff GIG" ("*NHS body*") yw—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(b) ymddiriedolaeth GIG;

mae i "corff llywodraethu", mewn perthynas â chorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach, yr ystyr a roddir i "governing body" gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13);

ystyr "cyfaill achos" ("*case friend*") yw person a benodir o dan adran 85;

mae i "cynllun addysg personol" ("*personal education plan*") yr ystyr a roddir gan adran 15;

ystyr "cynllun AIG" ("*EHC plan*") yw cynllun o fewn adran 37(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) (cynlluniau addysg, iechyd a gofal);

mae i "cynllun datblygu unigol" ("*individual development plan*") yr ystyr a roddir gan adran 10;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

mae i "darpariaeth ddysgu ychwanegol" ("*additional learning provision*") yr ystyr a roddir gan adran 3;

mae i "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" ("*beginning of detention*") yr ystyr a roddir gan adran 39;

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir)—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon);

(c) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf sy'n dod o fewn paragraff (a) neu o dan Fesur neu Ddeddf sy'n dod o fewn paragraff (b);

**[**F3"ystyr "GIG Lloegr" ("NHS England") yw'r corff a sefydlir o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;**]**

F4...

mae "hyfforddiant" ("*training*") yn cynnwys—

(a) hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;

(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden;

mae i "llety ieuenctid perthnasol" ("*relevant youth accommodation*") yr ystyr a roddir gan adran 39;

ystyr "Llywydd" ("*President*") yw Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru a benodir o dan adran 91;

ystyr "panel lleyg" ("*lay panel*") yw'r panel o bersonau a benodir o dan adran 91(5);

ystyr "panel cadeirydd cyfreithiol" ("*legal chair panel*") yw'r panel o bersonau a benodir o dan adran 91(4) (ac ystyr "cadeirydd cyfreithiol" ("*legal chair*") yw aelod o'r panel);

ystyr "perchennog" ("*proprietor*"), mewn perthynas â sefydliad nad yw'n ysgol, yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad;

ystyr "person ifanc" ("*young person*") yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed;

mae i "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" ("*detained person*") yr ystyr a roddir gan adran 39;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol;

ystyr "rhagnodedig" ac "a ragnodir" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "sefydliad prif ffrwd yn y sector addysg bellach" ("*mainstream institution in the further education sector*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol;

ystyr "sefydliad yn y sector addysg bellach" ("*institution in the further education sector*") yw sefydliad sy'n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

mae i "swyddog adolygu annibynnol" ("*independent reviewing officer*") yr ystyr a roddir gan adran 15;

ystyr "tîm troseddwyr ifanc" ("*youth offending team*") yw tîm a sefydlir o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37);

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Addysg Cymru (gweler adran 91);

mae i "uned cyfeirio disgyblion" yr ystyr a roddir i "pupil referral unit" gan adran **[**[F5]19(2)**][**[F5]19A(2)**]** o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

ystyr "ymddiriedolaeth GIG" ("*NHS trust*") yw ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlir o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

mae i "ymddiriedolaeth sefydledig GIG" yr ystyr a roddir i "NHS foundation trust" gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw—

(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,
(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,
(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu
(d) uned cyfeirio disgyblion;

ystyr "ysgol brif ffrwd a gynhelir" ("*mainstream maintained school*") yw ysgol a gynhelir—

(a) nad yw'n ysgol arbennig, a
(b) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion.

(2) Yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn is-adran (1), mae i—

(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol ("community, foundation or voluntary school"), a
(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig ("community or foundation special school"),

yr ystyr a roddir gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(3) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;
(b) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yn Lloegr os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

(4) At ddibenion y Ddeddf hon, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ardal yr awdurdod.

(5) Mae i gyfeiriad yn y Ddeddf hon at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (sut bynnag y'i mynegir) yr ystyr a roddir gan adran 15, ac mae cyfeiriadau at awdurdod lleol yn gofalu am blentyn i gael eu dehongli yn unol â hynny.

(6) Mae Deddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") a darpariaethau blaenorol y Ddeddf hon (ac eithrio i'r graddau y bônt yn diwygio Deddfau eraill) i gael eu dehongli fel pe cynhwysid y darpariaethau hynny yn Neddf 1996.

(7) Pan fo ystyr yn cael ei roi i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon sy'n wahanol i'r ystyr a roddir iddo at ddibenion Deddf 1996, mae'r ystyr hwnnw i fod yn gymwys at ddibenion y ddarpariaeth honno yn lle'r ystyr a roddir at ddibenion Deddf 1996.

(8) Caiff rheoliadau ddiwygio'r diffiniad o "corff GIG" fel ei fod yn cynnwys Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 99(1) wedi eu hepgor (1.7.2022) yn rhinwedd gan Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 1 para. 37(b)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), **Atod.** (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

**F2** Geiriau yn a. 99(1) wedi eu mewnosod (1.7.2022) gan Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 4 para. 234(b)(ii)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), Atod. (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

**F3** Geiriau yn a. 99(1) wedi eu mewnosod (1.7.2022) gan Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 1 para. 37(b)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), Atod. (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

**F4** Geiriau yn a. 99(1) wedi eu hepgor (1.7.2022) yn rhinwedd Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 4 para. 234(b)(i)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), Atod. (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

**F5** Gair yn a. 99(1) wedi ei amnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 18(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 99 mewn grym ar 25.1.2018, gweler **a. 100(1)**

## 100 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon ac adrannau 1, 97, 98, 99 ac 101 i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw paragraff 5 o Atodlen 1 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod â darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** A. 100 mewn grym ar 25.1.2018, gweler **a. 100(1)**

## 101 Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Ddeddf hon i gael ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** A. 101 mewn grym ar 25.1.2018, gweler **a. 100(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/735 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/938 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/735 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/383 by S.I. 2021/735 art. 4
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/381 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/381 revoked (12.8.2021) by S.I. 2021/938, art. 3)
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/383 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/383 revoked (12.8.20210) by S.I. 2021/938, art. 4)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 4(3)(ca)(cb) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(2)
- s. 5(1)(da) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(3)
- s. 65(4)(da)(db) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(5)
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1243, arts. 4-23 by S.I. 2023/932 art. 2
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1244, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 3
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/891, arts. 4-25 by S.I. 2023/932 art. 4
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/896, arts. 4-22 by S.I. 2023/932 art. 5
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/897, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 6
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) coming into force by S.I. 2022/893 art. 2(o)(xi)